# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Ysgol Bryn Castell |
| **SWYDD:** | Goruchwyliwr Llanw |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR08 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Pennaeth |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Yn absenoldeb yr athro/athrawes ddosbarth gyfrifol byddwch yn galluogi parhad dysgu drwy ddehongli, defnyddio a chyflawni ymarferion a baratowyd ymlaen llaw a gwaith wedi'i osod, yn ogystal ag ymgysylltu, cymell a rheoli ymddygiad disgyblion.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cymryd lle'r athro/athrawes ddosbarth drwy ddefnyddio deunyddiau wedi'u paratoi ymlaen llaw, gan benderfynu ar addasu lle y bo angen.
- Creu a chynnal a chadw amgylchedd bwriadol, trefnus a chefnogol, yn unol â chynlluniau gwersi.
- Asesu anghenion dysgu a dyfeisio dulliau amgen o hwyluso dysgu a dealltwriaeth.
- Darparu gofal arbenigol i'r disgyblion hynny â gofynion sylweddol.
- Hyrwyddo cynhwysiant a sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i gyfleoedd i ddysgu a datblygu.
- Bod yn ymwybodol o ofynion gwahanol y disgyblion.
- Monitro a gwerthuso llwyddiant gweithgareddau yn erbyn mesurau y cytunwyd arnynt. Rhoi adborth manwl a rheolaidd i athrawon ar gyflawniad, cynnydd a phroblemau disgyblion.
- Gall fod yn ofynnol ichi oruchwylio eraill, dyrannu a gwirio gwaith, cyfarwyddo a monitro staff yn yr ystafell ddosbarth.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

**Cyfle Cyfartal**

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Goruchwyliwr Llanw

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • FfCCh lefel 4 ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu neu gymhwyster neu brofiad cyfwerth. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| | • Hyfforddiant Cymorth Cyntaf priodol. | | |
| | • Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. | Ydy | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad blaenorol o weithio gyda disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn amgylchedd Ysgol Arbennig. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cwricwlwm, strategaethau dysgu perthnasol / rhaglenni i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. | Ydy | |
| | • Deall egwyddorion datblygiad plant a'u dysgu. | Ydy | |
| | • Dealltwriaeth dda o rolau a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth. | Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau llythrennedd a rhifedd gwych. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Defnydd effeithiol o TGCh i gynorthwyo dysgu. | | |
| | • Gallu datblygu a gweithredu cynlluniau dysgu clir a realistig a monitro cynnydd. | Ydy | |
| | • Gallu cysylltu'n dda â phlant ac oedolion. | | |
| | • Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm. | | |
| | • Yn gwrtais wrth ddelio â staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr. | | |
| | • Yn rheoli amser yn effeithiol. | | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |